COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL 2024/2025

© Hawlfraint CDFfC 2025

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.cdffc.llyw.cymru

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AR BERFFORMIAD** | **1** |
| **ADRODDIAD ATEBOLRWYDD** | **10** |
| **DATGANIADAU ARIANNOL** | **34** |

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

Mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.

Bu eleni'n gyfnod trawsnewidiol i'r Comisiwn, wedi'i nodi gan gyflawniadau sylweddol wrth i'r sefydliad ehangu ei swyddogaethau. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys trosolwg o'r Comisiwn, ei weithgareddau, ei drefniadau llywodraethu ac effaith y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

Mae'r Comisiwn wedi cwblhau ei raglen o Arolygon Cymunedol awdurdod lleol yn llwyddiannus, gan baratoi'r ffordd ar gyfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol nesaf. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Penderfyniadau Terfynol ar yr arolwg o Etholaethau'r Senedd, sy'n garreg filltir ar gyfer ethol y 7$^{fed}$ Senedd.

Bu cynnydd sylweddol hefyd wrth weithredu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu swyddogaethau'r Comisiwn i gynnwys trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol. Daeth y swyddogaeth i sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i rym ar 1 Ionawr 2025, a ddilynwyd gan drosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn ar 1 Ebrill 2025. Er mwyn sicrhau bod gan y Comisiwn y capasiti, y sgiliau a'r adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau newydd hyn yn effeithiol, penodwyd dau aelod newydd o'r Comisiwn a Chadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024-25.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid a chymunedau Cymru i lywio ein penderfyniadau a meithrin cydweithio.

Mae'r Comisiwn yn gobeithio y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn helpu i roi mwy o wybodaeth i chi am waith y Comisiwn, cyflawni rhaglen waith y Comisiwn, a sut y defnyddiwyd y Cymorth Grant a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth Cymru.

Beverley Smith
Cadeirydd
17 Hydref 2025

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025**

## TROSOLWG

Mae’r adran hon yn crynhoi diben y Comisiwn, ei amcanion corfforaethol, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn.

### Datganiad y Prif Weithredwr ar Berfformiad y Comisiwn

Amlinellodd Llythyr Cylch Gwaith Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) dyddiedig 9 Mai 2024, a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, amcanion y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Cyflwynwyd cynllun gweithredol dilynol i Lywodraeth Cymru yn amlinellu sut y byddai’r Comisiwn yn cyflawni ei amcanion.

Rwyf o’r farn bod y Comisiwn wedi cyflawni’r amcanion a nodwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith. Ystyrir hyn yn fanylach yn adrannau Dadansoddiad o Berfformiad ac Adolygiad o Weithgareddau yr adroddiad hwn, ar dudalennau 3 i 8.

### Datganiad o Ddiben a Gweithgareddau

Mae’r Comisiwn yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac fe’i hailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Ar ôl pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ailenwyd y Comisiwn yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â’r Comisiwn yn disodli rhai Deddf 1972.

Diben y Comisiwn yw:

- monitro ardaloedd a threfniadau etholiadol sy’n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried a yw’n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae’n rhaid i’r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- arolygu ffiniau etholaethau’r Senedd yn barhaus ar gyfer ethol Aelodau’r Senedd,
- cydlynu gweinyddu etholiadau a refferenda Cymru (etholiadau Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a refferenda datganoledig) trwy’r Bwrdd Rheoli Etholiadol (o 1 Ionawr 2025).
- pennu’r lefelau a’r trefniadau ar gyfer tâl aelodau etholedig a chyfetholedig Prif Gynghorau, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chyd-bwyllgorau Corfforedig (o 1 Ebrill 2025).

### Amcanion Corfforaethol

Amcanion Corfforaethol y Comisiwn, y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2024, yw:

- **Sicrhau Cynrychiolaeth Deg** trwy gynnal arolygon rheolaidd o ffiniau (cymunedol, etholiadol a'r Senedd) er mwyn sicrhau tegwch etholiadol, gan adlewyrchu newidiadau yn y boblogaeth, hunaniaeth gymunedol a newidiadau demograffig.
- **Cynnal Hunaniaeth Etholiadol** trwy sicrhau safonau uchel o gywirdeb a didueddrwydd ym mhob arolwg a phenderfyniad, yn ogystal â chydymffurfio â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n llywodraethu ei waith.
- **Hyrwyddo Ymgysylltiad â'r Cyhoedd** a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o arolygon ffiniau a'u pwysigrwydd, gan hwyluso ymgynghori a chyfranogi cyhoeddus effeithiol yn y broses arolygu ffiniau.
- **Cydweithio ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** trwy weithio mewn partneriaeth â phrif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, y gymuned etholiadol ehangach a rhanddeiliaid eraill.
- **Datblygu Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd** trwy gynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol a datblygu diwylliant o welliant parhaus.
- **Hyrwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant** trwy eirioli o blaid polisïau ac arferion sy'n gwella amrywiaeth o fewn y Comisiwn a chyflawni ei swyddogaethau a bod egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori yn ein gwaith.

O ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a'u heffaith ar swyddogaethau'r Comisiwn, estynnwyd cyfnod y Cynllun Corfforaethol. Bydd Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2025-26.

## Risgiau ac ansicrwydd

Mae'r risgiau a wynebir gan y Comisiwn yn ymwneud yn bennaf â materion gweithredol, sefydliadol a TG sy'n deillio o ehangu swyddogaethau'r Comisiwn, a'r gallu technegol i gyflawni ei raglen waith a bodloni gofynion Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, fel yr amlinellir yn ei Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i'r Comisiwn. Rheolir y risgiau yn ymwneud â'r gallu i gyflawni'r swyddogaethau newydd trwy adolygu gofynion adnoddau a strwythur yn ogystal â chydweithio â Llywodraeth Cymru trwy Fwrdd Prosiect Gweithredu.

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn adolygu ei gyllidebau ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer y rhaglen waith sydd i'w chyflawni. Caiff risgiau gweithredol eu lliniaru trwy ystod o brosesau rheoli. Mae gofynion gwybodaeth wedi eu cyfyngu i feysydd arbenigol, gan gynnwys defnyddio meddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol. Hefyd, ceir elfennau o risg ym meysydd iechyd a diogelwch, a thwyll/lladrad. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd gan uwch reolwyr, ac mae'r Comisiwn yn gweithredu arnynt. Mae cyflogi cyfrifwyr annibynnol, y mae eu rôl yn y systemau ariannol a llunio cyfrifon yn lleihau'r risg o dwyll a gwyngalchu arian, yn rhan annatod o system reolaeth fewnol y Comisiwn. Mae archwilwyr mewnol y Comisiwn yn llunio adroddiad blynyddol a ystyrir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a gweithredir ar yr argymhellion.

Rheolir risgiau drwy gynnal polisi rheoli risg hefyd, ynghyd â Chofrestrau Risg Corfforaethol, Gweithredol, Pensiynau a TGCh. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn ac mae'r holl gofrestrau risg yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ogystal â hyn, mae'r Comisiwn yn cynnal Cynllun Parhad Busnes, sy'n cael ei brofi a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r Comisiwn hefyd wedi datblygu Cofrestr Risg Blaenraglen Waith i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynigion Llywodraeth Cymru i ehangu swyddogaethau'r Comisiwn i gynnwys cynnal yr Arolwg o Ffiniau'r Senedd, yn ogystal â throsglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol

Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, ac adolygu'r risgiau hynny'n rheolaidd.

Ceir rhagor o fanylion am y risgiau a wynebir gan y Comisiwn yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 13.

**Busnes Gweithredol**

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwy'n fodlon y caiff y rhwymedigaethau cyfredol net eu hariannu gan adnoddau y bydd Llywodraeth Cymru (Cymorth Grant) yn pleidleisio arnynt yn y dyfodol.

**Crynodeb o Berfformiad**

Yn ystod 2024-25, gweithiodd y Comisiwn tuag at fodloni'r gofynion yn ei Lythyr Cylch Gwaith a chadw at derfynau amser a bennwyd yn ei amserlen ar gyfer arolygu etholaethau'r Senedd a chynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer sawl prif gyngor yng Nghymru a pharatoi ar gyfer bodloni gofynion a darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Mae'r Comisiwn o'r farn ei fod wedi cyflawni'r ddau nod hyn yn llwyddiannus, fel yr amlinellir yn y Dadansoddiad o Berfformiad isod.

## DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

Ar gyfer 2024-25, fe wnaeth y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd ar 9 Mai 2024 ddatgan y disgwyliadau canlynol ar gyfer y Comisiwn, sef:

- parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i lywio'r pecynnau gwaith pontio sy'n ofynnol i gyflawni bwriadau polisi a gweithredol darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). (Yn amodol ar basio'r ddeddfwriaeth).
- cyflawni'r arolwg cyntaf o ffiniau'r Senedd erbyn 1 Ebrill 2025 yn unol â'r cyfarwyddiadau deddfwriaethol, er mwyn peidio ag ymyrryd ag amserlen etholiadau'r Senedd.
- sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, yn unol â darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), erbyn mis Rhagfyr 2024, yn barod i ddisodli Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru o fis Ionawr 2025.
- datblygu polisi ac ymarfer ac ymagwedd at fethodolegau maint cynghorau ar gyfer y rhaglen arolygu etholiadol nesaf, ymgynghori arnynt a'u cwblhau'n derfynol, gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen flaenorol.
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gytuno ar y rhaglen arolygu etholiadol nesaf, gan gynnwys trefn yr arolygon a'u hamserlenni unigol.
- cyfrannu at recriwtio aelodau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gydag Ysgrifenyddion y Cabinet er mwyn sicrhau bod aelodau ar waith sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol i alluogi'r Comisiwn i drawsnewid i CDFfC ar draws pob maes swyddogaethol.
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu adleoli i'w safle newydd ym Mharc Cathays heb darfu ar fusnes, cyn belled ag y bo'n bosibl, a chyda'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni ei rôl.
- parhau i gefnogi prif gynghorau posibl, lle bo'n bosibl, i ddatblygu arolygon cymunedol ledled Cymru.
- amlygu a chyflawni rhaglen ymchwil a strategaeth gyfathrebu.
- gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i sicrhau proses bontio effeithiol rhyngddo a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

- gweithredu strwythur staffio sy'n galluogi CDFfC i gyflawni ei swyddogaethau a'i gylch gwaith estynedig.

Mae cynllun gweithredol y Comisiwn yn amlinellu sut mae'n bwriadu cyflawni gofynion y Gweinidog. Mae'r canlynol yn manylu ar y camau gweithredu arfaethedig ac i ba raddau y'u cyflawnwyd:

| | |
|---|---|
| Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i lywio'r pecynnau gwaith pontio sy'n ofynnol i gyflawni bwriadau polisi a gweithredol darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). (Yn amodol ar basio'r ddeddfwriaeth) | Cydweithiodd y Comisiwn â Llywodraeth Cymru ar y Bwrdd Prosiect Gweithredu a pharhaodd i ymgysylltu â swyddogion wrth ddarparu mewnbwn a chyngor arbenigol ynglŷn â'r ddau Fil. Cafodd y Biliau Gydsyniad Brenhinol yn ystod 2024-25. |
| Cyflawni'r arolwg cyntaf o ffiniau'r Senedd erbyn 1 Ebrill 2025 yn unol â'r cyfarwyddiadau deddfwriaethol, er mwyn peidio ag ymyrryd ag amserlen etholiadau'r Senedd. | Cwblhaodd y Comisiwn yr arolwg o Ffiniau'r Senedd yn llwyddiannus a chyhoeddodd ei benderfyniadau terfynol ar 11 Mawrth 2025, cyn y dyddiad cau, sef 1 Ebrill 2025. |
| Sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, yn unol â darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), erbyn mis Rhagfyr 2024, yn barod i ddisodli Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru o fis Ionawr 2025. | Yn dilyn y dyddiad gweithredu, sef 1 Ionawr 2025, datblygodd y Comisiwn drefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 4 Ebrill 2025. |
| Datblygu polisi ac ymarfer ac ymagwedd at fethodolegau maint cynghorau ar gyfer y rhaglen arolygu etholiadol nesaf, ymgynghori arnynt a'u cwblhau'n derfynol, gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen flaenorol. | Datblygwyd methodoleg maint cynghorau ddiwygiedig a chadarn trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, a oedd yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd o'r cylch arolygu blaenorol ac yn ystyried yr ymchwil a gynhaliwyd ar Lwyth Gwaith Cynghorwyr. Ymgynghorwyd ar y polisi Maint Cynghorau yn ystod 2025-26. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gytuno ar y rhaglen arolygu etholiadol nesaf, gan gynnwys trefn yr arolygon a'u hamserlenni unigol. | Ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, cytunodd y Comisiwn ar raglen fesul cam o arolygon etholiadol, gan gynnwys y drefn a'r amserlenni unigol ar gyfer pob prif gyngor. Ymgynghorwyd ar hyn yn ystod 2025-26. |
| Cyfrannu at recriwtio aelodau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gydag Ysgrifenyddion y Cabinet er mwyn sicrhau bod aelodau ar waith sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol i alluogi'r Comisiwn i drawsnewid i CDFfC ar draws pob maes swyddogaethol. | Cefnogodd y Comisiwn recriwtio aelodau newydd yn unol ag amserlen Ysgrifenyddion y Cabinet, gan sicrhau bod y penodedigion yn meddu ar yr arbenigedd sy'n angenrheidiol i gefnogi cylch gwaith estynedig CDFfC ar draws pob swyddogaeth. Penodwyd dau Gomisiynydd newydd. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu adleoli i'w safle newydd ym Mharc Cathays heb darfu ar fusnes, cyn belled ag y bo'n bosibl, a chyda'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni ei rôl. | Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, adleolodd y Comisiwn i'w safle newydd ym Mharc Cathays heb lawer o darfu, gan sicrhau parhad busnes a pharodrwydd gweithredol. |
| Parhau i gefnogi prif gynghorau posibl, lle bo'n bosibl, i ddatblygu arolygon cymunedol | Parhaodd y Comisiwn i gynghori a chefnogi prif gynghorau i gynnal arolygon cymunedol, |

| | |
|---|---|
| ledled Cymru. | gan gynnig arweiniad technegol a rhannu arfer da ledled Cymru. |
| Amlygu a chyflawni rhaglen ymchwil a strategaeth gyfathrebu. | Mae'r Comisiwn wedi amlygu "Polisi Maint Cynghorau Cymuned a Thref Cymru Gyfan" fel maes ymchwil wedi'i dargedu. Cynhelir yr ymarfer tendro yn ystod 2025-26.<br>Mae'r Comisiwn wedi cynnal y gwaith cychwynnol sy'n ofynnol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu newydd, gan ystyried ei swyddogaethau newydd. Bydd y strategaeth hon yn cael ei chwblhau'n derfynol yn ystod 2025-26. |
| Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i sicrhau proses bontio effeithiol rhyngddo a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. | Gweithiodd y Comisiwn mewn partneriaeth agos â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i drawsnewid yn ddidrafferth ac yn gydlynus i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd, gan gynnal sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod trosglwyddo. |
| Gweithredu strwythur staffio sy'n galluogi CDFfC i gyflawni ei swyddogaethau a'i gylch gwaith estynedig. | Gweithredwyd model staffio wedi'i ailstrwythuro i gyd-fynd â chyfrifoldebau uwch y Comisiwn, gan alluogi cyflawni swyddogaethau etholiadol, ffiniau, a llywodraethu'n effeithlon, yn ogystal ag iechyd democrataidd. |

Mae Cynllun Corfforaethol y Comisiwn, y cytunwyd arno ym mis Mehefin 2022, yn amlinellu'r amcanion corfforaethol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei adolygu ar ddechrau pob rhaglen o arolygon etholiadol. Rhoddir pob amcan isod ynghyd â'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Comisiwn i'w cyflawni:

1. Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – datblygu rhaglen o arolygon etholiadol yn unol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

    - Datblygwyd polisi maint cynghorau diwygiedig a chadarn yn ogystal â dogfen polisi ac ymarfer ar gyfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol nesaf a fydd yn dechrau yn 2025-26
    - Datblygwyd amserlen o arolygon etholiadol ar gyfer pob un o'r 22 Prif Gyngor a fydd yn cael ei chyflawni dros raglen 12 mlynedd.

2. Sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn addas i'r diben – Gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn cael eu harolygu'n rheolaidd a'u cydlynu â'r rhaglen o arolygon etholiadol.

    - Mae'r Comisiwn wedi rhoi cyngor i brif gynghorau ynglŷn â chynnal arolygon cymunedol fel y bo'r angen.
    - Cwblhaodd y Comisiwn arolygon cymunedol ar gyfer pum prif gyngor yn ystod 2024-25.

3. Sicrhau bod ffiniau ardaloedd prif gyngor yn addas i'r diben – Arolygu ffiniau prif ardaloedd fel y bo'n briodol.

    - Mae'r Comisiwn wedi arolygu ffiniau ardaloedd prif gyngor yn barhaus.

4. Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein busnes – Cynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyson i greu enw da am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn a sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.

- Adolygwyd y Gofrestr Risg a threfniadau monitro'r gyllideb ym mhob cyfarfod.
- Adroddiadau Archwilio Mewnol â sgorau sicrwydd da.
- Barn Archwilio flynyddol dda gan Archwilwyr Mewnol.
- Ymgysylltwyd â phob prif gyngor, cyngor tref a chyngor cymuned ar ddechrau pob arolwg cymunedol.
- Cyfarfuwyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr is-adran noddi yn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ac Un Llais Cymru.
- Mae porth arolygon etholiadol y Comisiwn yn dangos effeithlonrwydd, rhagoriaeth ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid.
- Hyfforddiant staff drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Diploma Cyswllt mewn Rheoli Pobl, cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyr a chyrsiau hyfforddi meddalwedd fapio ar gyfer aelodau staff newydd.
- Cynhaliwyd system switsfwrdd awtomataidd i ateb siaradwyr Cymraeg.

5. Sicrhau bod egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r iaith Gymraeg wedi'u hymsefydlu yn ein gwaith.

- Mae'r Gymraeg wedi'i hymgorffori ym mhob dogfen a gynhyrchir gan y Comisiwn.
- Mae'r Comisiwn yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.
- Monitro effaith amgylcheddol i'w chynnwys yn adroddiadau Carbon y Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer polisïau a rhaglenni gwaith newydd.
- Er nad yw'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Comisiwn yn derbyn ysbryd y Ddeddf.
- Mae arolygon etholiadol y Comisiwn yn ceisio sicrhau pleidleisiau cyfartal sy'n arwain at gydraddoldeb yn y gymuned.

**Adolygiad o Weithgareddau yn ystod 2024-25**

Yn ystod 2024-25, cwblhaodd y Comisiwn ei raglen arolygon cymunedol ar gyfer sawl Prif Awdurdod yng Nghymru, gan gyhoeddi adroddiadau Argymhellion Terfynol ar gyfer Bro Morgannwg ym mis Ebrill 2024, Caerffili ym mis Ebrill 2024, Ceredigion ym mis Hydref 2024, Abertawe ym mis Tachwedd 2024 a Sir Benfro ym mis Ionawr 2025. Cwblhaodd y Comisiwn arolwg o etholaethau'r Senedd hefyd cyn cyhoeddi ei Adroddiad Penderfyniadau Terfynol ym mis Mawrth 2025.

Sefydlodd y Comisiwn y Bwrdd Rheoli Etholiadol ar 1 Ionawr 2025 o dan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Parhaodd y Comisiwn i ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod 2024-25, a chafodd y Comisiwn gyllid ar gyfer y gwariant hwn yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cafwyd £229,757 (2023-24; £245,143) o gyllid yn 2024-25 yn ymwneud â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, fel y datgelir yn Nodyn 4 i'r cyfrifon ar dudalen 44.

Cynhaliodd y Comisiwn y gwaith angenrheidiol i fodloni gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a chyhoeddodd ei Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2023-24 ym mis Medi 2024.

Cyflawnodd y Comisiwn ei rwymedigaethau rheoli corfforaethol yn unol â'i Ddogfen Fframwaith, Cod Arfer Gorau'r Comisiynwyr, ei Weithdrefn Gwyno, ei God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a'i Bolisi Safonau'r Gymraeg.

## Datblygiadau yn y Dyfodol

Yn ystod 2025-26, bydd y Comisiwn yn parhau i ddatblygu ei Bolisi ac Ymarfer ar gyfer y rhaglen nesaf o arolygon etholiadol.

Bydd cryn bwyslais hefyd ar weithredu cynigion Llywodraeth Cymru i ehangu swyddogaethau'r Comisiwn i gynnwys trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol.

Hefyd, mae gan y Comisiwn rwymedigaeth barhaus i gadw ardaloedd prif gynghorau dan arolwg ac ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon o ardaloedd cymunedol a gyflawnir ganddynt, a bydd yn parhau i roi unrhyw gyngor ac arweiniad iddynt y gallai fod arnynt eu hangen.

Bydd y Prif Weithredwr yn parhau i asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu drwy gydol y flwyddyn. Fel rhan o lunio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, caiff Datganiad Llywodraethu ei gynhyrchu, a ategir gan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Caiff risgiau corfforaethol eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn.

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru hefyd yn ystod blynyddoedd pan na chynhelir gwaith arolygu.

## Canlyniadau Ariannol

Cyfanswm y gwariant net ar gyfer y flwyddyn oedd £1,198,936 (2023-24; £758,044) ac fe'i trosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y Cymorth Grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru oedd £1,280,000 (2023-24; £750,000) ac fe'i credydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

## Talu Credydwyr

Polisi talu'r Comisiwn yw talu pob anfoneb cyn pen 30 niwrnod o'i derbyn. Mae'r polisi hwn yn unol â'r gofynion a bennir yn Neddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, ac mae'n dilyn y Cod Ymarfer Talu Gwell a gyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Yn 2024-25, derbyniodd y Comisiwn 329 o anfonebau a thalodd 99% o'r rhain cyn pen 30 niwrnod a 94% o fewn 10 niwrnod (2023-24, derbyniwyd 251 o anfonebau a thalwyd 99% o'r rhain o fewn 30 niwrnod a 93% o fewn 10 niwrnod).

## Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r Comisiwn yn mynd ar drywydd polisïau a fydd yn ceisio lleihau effaith gweithrediadau'r Comisiwn ar yr amgylchedd yn weithredol. Er y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â nifer o fentrau i leihau ei effaith amgylcheddol, fel sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant

datblygu cynaliadwy, caiff ei gyflawni'n bennaf trwy bolisïau caffael cynaliadwy'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi datblygu Polisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy ac wedi cyflawni lefel tri y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy yn y meysydd allweddol.

Amlinellir agenda strategol Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n pwysleisio'r deilliannau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag atynt: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas â gwir ymdeimlad o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun. Mae'r Comisiwn yn cydnabod ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol ledled Cymru, a bydd yn ymdrechu i ystyried yr ymrwymiad hwnnw wrth wneud unrhyw argymhellion.

**Tueddiadau Gwariant Tymor Hir**

Mae cyllid a gwariant y Comisiwn yn gysylltiedig â rhaglenni gwaith arolygon etholiadol a chymunedol yr ymgymerir â nhw ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru. Disgwylir y bydd lefel gwariant y Comisiwn yn ystod 2025-26 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i weithredu cynigion Llywodraeth Cymru i ehangu swyddogaethau'r Comisiwn i gynnwys trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gweinyddu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
17 Hydref 2025

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Aelodau'r Comisiwn, y Prif Weithredwr ac Uwch Aelodau Staff

Aelodau'r Comisiwn yn ystod 2024-25 oedd:

| | |
|---|---|
| Beverley Smith | (Cadeirydd) |
| Michael Imperato | (Dirprwy Gadeirydd) |
| Frank Cuthbert | (Aelod) |
| Dianne Bevan | (Aelod) |
| Ginger Wiegand | (Aelod) |
| Bethan Price | (Aelod o 15 Hydref 2024) |
| Karen Jones | (Aelod o 1 Rhagfyr 2024) |

Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg / Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

| | |
|---|---|
| Andrew Blackmore | (Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg tan 17 Mawrth 2025) (Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 18 Mawrth 2025) |
| Kalwant Grewal | (Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg / Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) |

Yr uwch reolwyr yn ystod 2024-25 oedd:

| | |
|---|---|
| Shereen Williams | (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu) |
| Tom Jenkins | (Pennaeth Polisi a Rhaglenni) |
| David Burley | (Pennaeth Busnes) |
| Mark Pascoe | (Pennaeth Iechyd Democrataidd) |

Mae penodiad Beverley Smith fel Cadeirydd am gyfnod o 4 blynedd o 1 Chwefror 2022 hyd at 31 Ionawr 2026.

Roedd penodiad yr Aelod Michael Imperato am gyfnod o 3 blynedd o 1 Mawrth 2022 hyd at 28 Chwefror 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2026.

Roedd penodiad Frank Cuthbert am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2026.

Mae penodiad yr Aelod Dianne Bevan am gyfnod o 4 blynedd o 1 Mehefin 2022 hyd at 31 Mai 2026.

Mae penodiad yr Aelod Ginger Wiegand am gyfnod o 1 flynedd a 10 mis o 1 Mehefin 2023 hyd at 31 Mawrth 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2026.

Mae penodiad yr Aelod Bethan Price am gyfnod o 4 blynedd o 15 Hydref 2024 hyd at 14 Hydref 2028.

Mae penodiad yr Aelod Karen Jones am gyfnod o 4 blynedd o 1 Rhagfyr 2024 hyd at 30 Tachwedd 2028.

Roedd penodiad yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sef Andrew Blackmore, am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ionawr 2024 hyd at 31 Rhagfyr 2026. Fodd bynnag, penodwyd Andrew yn Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 4 blynedd o 18 Mawrth 2025 hyd at 17 Mawrth 2029.

Mae penodiad yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sef Kalwant Grewal, am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ionawr 2024 hyd at 31 Rhagfyr 2026.

**Cofrestr Buddiannau**

Caiff cofrestr o unrhyw swyddi cyfarwyddwr a buddiannau arwyddocaol eraill ei chynnal a'i chadw yn swyddfeydd y Comisiwn ym Mharc Cathays, Caerdydd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ar gais. Fel arall, mae'r gofrestr i'w gweld ar wefan y Comisiwn yn: http://www.dbcc.gov.wales/publications/05-24/register-of-commissioners-interests-2024-25. Anfonir nodyn bob blwyddyn i atgoffa o'r angen i ddiweddaru'r wybodaeth hon. Mae trefniadau ar waith hefyd i aelodau a swyddogion ddatgan buddiannau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar ddechrau pob cyfarfod o'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Rheoli Data Personol**

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i warchod y data personol a geir gan ei randdeiliaid a'i gyflogeion wrth iddo gyflawni ei weithgareddau busnes. Mae rheolaethau rheoli data yn cynnwys diogelwch cyfrineiriau ar bob cronfa ddata sy'n cynnwys data personol a sensitif, cyfyngu ar bwy sy'n gallu gweld data, cadw data ar ffurf copïau papur dan glo mewn cypyrddau a sicrhau bod protocolau trin data ar waith.

Er bod y data personol sy'n cael ei drin gan y Comisiwn wedi'i gyfyngu'n bennaf i hwnnw sy'n ymwneud â chyflogeion y Comisiwn, mae rhwymedigaethau diogelwch gwybodaeth yn cael eu trin o ddifrif. Mae pob aelod o staff wedi dilyn hyfforddiant 'Diogelu Gwybodaeth' ac mae'r holl ffeiliau data personol yn cael eu cadw dan glo mewn cypyrddau. Mae'r Comisiwn yn gweithredu ei system TGCh ei hun ac mae'n ofynnol i aelodau staff y Comisiwn gydymffurfio'n llawn â rheolau a gweithdrefnau diogelwch data TG y Comisiwn.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data yn ystod 2024-25 (2023-24: dim digwyddiadau diogelwch data).

**Penodi Archwilwyr**

Caiff cyfrifon y Comisiwn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Adran 19 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Caiff ffioedd archwilio eu datgelu yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar bedwar achlysur yn ystod 2024-25. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Michael Imperato. Gwasanaethodd Frank Cuthbert, Dianne Bevan a Bethan Price fel aelodau o'r Pwyllgor a gwasanaethodd Andrew Blackmore a Kalwant Grewal fel aelodau annibynnol y Pwyllgor. Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw ystyried effeithiolrwydd rheolaeth fewnol gyffredinol a systemau rheoli risg y Comisiwn a sicrhau bod prosesau a dulliau digonol ar waith i asesu a rheoli risg. Mae'n ystyried cwmpas archwilio a digonolrwydd ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio, ac yn cynghori'r Prif Weithredwr ar faterion archwilio a chydymffurfio.

Diddymwyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 17 Mawrth 2025 ac ymgorfforwyd ei gyfrifoldebau yng nghylch gwaith ehangach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd ei ffurfio.

**Offerynnau Ariannol**

Rhoddir manylion Offerynnau Ariannol yn Nodyn 7 i'r cyfrifon ar dudalen 44.

**Gwybodaeth**

Mae Cod Ymarfer y Comisiwn ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn mynnu bod yr holl geisiadau am wybodaeth a gwmpesir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu bodloni cyn pen 15 niwrnod gwaith. Yn 2024-25, cafwyd 19 cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a darparwyd 100% ohonynt cyn pen 20 niwrnod gwaith o dderbyn y cais. Mae hyn o gymharu â 2023-24, pan gafwyd 14 cais am wybodaeth, y darparwyd 100% ohonynt cyn pen 20 niwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a thaliadau a amlinellir yng nghyfarwyddyd Trysorlys EF a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

**Cyfarwyddiadau gan Weinidogion**

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni roddwyd unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol i'r Comisiwn yn ystod 2024-25.

**Rhoddion a Lletygarwch**

Cedwir cofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau a staff. Mae Polisi Rhoddion a Lletygarwch y Comisiwn yn mynnu bod aelodau a staff yn datgan cynigion o roddion sy'n werth £5 neu fwy, a lletygarwch o werth £20 neu fwy, p'un ai y cawsant eu derbyn neu eu gwrthod a ph'un a ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â busnes y Comisiwn ai peidio. Ystyrir y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch a datganiadau ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod 2024-25, cafodd y Prif Weithredwr ddau gynnig o rodd, ac fe'i derbyniodd. Roedd un yn botel 20cl o wirodydd gwerth tua £10 gan gyflenwr. Derbyniwyd hyn gan na ystyriwyd ei bod yn gost-effeithiol ei dychwelyd. Roedd y llall yn fynediad am ddim i gynhadledd gyda llety mewn gwesty a brecwast gwerth tua £200. Derbyniwyd hyn oherwydd fe'i cynigiwyd gan un o randdeiliaid allweddol y Comisiwn a rhoddodd gyfle i aelod o'r Comisiwn ymgysylltu â nhw a sawl rhanddeiliad arall. (2023-24: un cynnig o roddion neu letygarwch gwerth £20).

**Gweithdrefn Gwyno**

Mae gan y Comisiwn Weithdrefn Gwyno a gellir gwneud cwynion (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) trwy gysylltu â'r Comisiwn. Mae Polisi Cwyno'r Comisiwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd, ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2024. Gellir cael gwybodaeth am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn nogfen Gweithdrefn Gwyno'r Comisiwn sydd i'w gweld ar wefan y Comisiwn (www.cdffc.llyw.cymru) neu sydd ar gael o swyddfeydd y Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:

Y Prif Weithredwr
CDFfC
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Daw gwaith y Comisiwn o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n ofynnol i'r holl aelodau staff ddilyn hyfforddiant ar ymdrin â chwynion. Cafodd y Comisiwn 1 gŵyn yn ystod 2024-25 (2023-24: ni dderbyniwyd unrhyw gwynion). Y gŵyn a dderbyniwyd oedd:

- Ysgrifennodd Cymdeithas yr Iaith at y Comisiwn gan ddatgan nad oedd y Comisiwn wedi gweithredu'r dull o bennu enwau etholaethau sy'n ofynnol gan baragraff 5 Atodlen 2 Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn gywir, ac nad oedd y Comisiwn wedi gweithredu dull priodol o bennu enwau etholaethau yn ei broses a'i weithdrefnau ar gyfer ei arolwg 2026 o etholaethau'r Senedd. Derbyniodd y Comisiwn y gŵyn ac adolygodd a newidiodd ei bolisi enwau etholaethau'r Senedd.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r Comisiwn wedi penodi aelod staff parhaol sy'n siarad Cymraeg yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg. Mae ganddo gylch gwaith agored i weithio gyda staff y Comisiwn i gynyddu a gwella ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n manylu ar sut mae wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u gosodwyd yn Hysbysiad o Gydymffurfio Terfynol 2016 Comisiynydd y Gymraeg i'r Comisiwn. Bydd copi o adroddiad 2024-25 yn cael ei gyflenwi ar gais neu gellir ei weld ar wefan y Comisiwn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r Comisiwn i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a bennir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn a'i incwm a gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, i:

i) gadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
ii) llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
iii) datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel yr amlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol; a
v) chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn, fel y'u hamlinellir ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylaswn fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Comisiwn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
17 Hydref 2025

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

# 2024/25

## 1. CYFLWYNIAD

Corff statudol a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") ac, fel y cyfryw, mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu system gadarn o lywodraethu corfforaethol. Cyfansoddwyd Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac mae'n gweithredu yn unol â hi. Fe'i hailenwyd yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau y caiff ei fusnes ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol ohono, ac y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Caiff y berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ei diffinio mewn Dogfen Fframwaith.

Nod y Datganiad Llywodraethu hwn yw darparu tystiolaeth o sut mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi rheoli'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn ei sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r egwyddorion a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EF[1].

## 2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y pwyllgorau, y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd y mae'r Comisiwn yn gweithredu yn unol â nhw, a'r gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw i roi cyfrif i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn adrodd iddi. Mae'n galluogi'r Comisiwn i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi ei llunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig, yn hytrach na sicrwydd llwyr. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Comisiwn, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Casgliad cyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yw y bu'r lefel llywodraethu drwy gydol y flwyddyn yn gadarn. Dangosodd ymarfer hunanasesu blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gyfer 2024-25 y cydymffurfiwyd yn gyffredinol ag arfer da.

## 3. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

### 3.1 Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gweithredol a'r Llythyr Cylch Gwaith

[1] http://www.hm-treasury.gov.uk/psr_governance_corporate.htm

Caiff rolau unigol Llywodraeth Cymru, fel yr Adran Noddi, a'r Comisiwn eu hamlinellu mewn Dogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn amlinellu'r fframwaith eang y mae'r Comisiwn yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn manylu ar y telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu Cymorth Grant i'r Comisiwn oddi tanynt. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i'r Comisiwn lunio Cynllun Gweithredol blynyddol.

Caiff Cynllun Gweithredol blynyddol y Comisiwn ei gytuno rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, ac mae'n amlinellu prif waith y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a sut caiff y gwaith hwn ei ariannu. Caiff y Cynllun Gweithredol ei lunio ar ôl derbyn Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidog Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu ei nodau polisi, hysbysiad o'r cymorth grant a ddyrannwyd i'r Comisiwn â rheolaeth gyllidebol gysylltiedig, ac arweiniad ar ofynion penodol sy'n ymwneud â chynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## 3.2 Swyddog Cyfrifyddu

Llywodraeth Cymru sy'n enwi Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn (y Prif Weithredwr, fel arfer). Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu eu hamlinellu yng nghyhoeddiad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru.

Enwyd Prif Weithredwr y Comisiwn, sef Shereen Williams, yn Swyddog Cyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru ar 7 Ionawr 2019.

## 3.3 Y Tîm Rheoli Corfforaethol

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cyfarfod yn fisol ac mae fel arfer yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, y Pennaeth Busnes, y Pennaeth Iechyd Democrataidd a'r Rheolwr Cyllid. Gelwir ar swyddogion eraill i gyfrannu eu harbenigedd proffesiynol yn ôl y gofyn.

## 3.4 Strwythur Pwyllgorau

Mae Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnwys 'aelod cadeirio' (Cadeirydd), 'dirprwy i'r aelod cadeirio' (Dirprwy Gadeirydd) ac o leiaf un ond dim mwy na saith aelod arall. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn yw tri aelod. Yn ystod 2024-25, cynhaliodd y Comisiwn gworwm o dri aelod yn bresennol ym mhob cyfarfod, fel y pennir yng Nghylch Gwaith y Comisiwn, gan felly fodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn yn cyfarfod unwaith y mis, ond gall gyfarfod yn fwy neu'n llai aml, yn dibynnu ar y llif gwaith.

Er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn mewn perthynas â materion yn ymwneud â risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth a llywodraethu mewnol, a sicrwydd cysylltiedig, penodwyd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys tri aelod o'r Comisiwn (nid y Cadeirydd) ac aelod annibynnol penodedig. Trefnir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gynnull cyfarfodydd ychwanegol fel yr ystyria'n briodol. Gall cynrychiolydd o is-adran noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg pe bai'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

Daeth Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 i rym ar 1 Ionawr 2025, a oedd yn mynnu bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei ailenwi'n Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. O dan y Ddeddf, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys dau aelod o'r Comisiwn ac o leiaf ddau aelod lleyg a dim mwy na phum

aelod gyda chworwm o dri aelod, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn aelod lleyg. Mae'n rhaid i un o'r aelodau lleyg gael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor ac mae'n rhaid i un aelod lleyg gael ei benodi'n ddirprwy i'r Cadeirydd.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn mynychu cyfarfodydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Gelwir ar swyddogion eraill am eu harbenigedd proffesiynol yn ôl y gofyn. Mae cynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## 3.5 Y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth y sefydliad. Rôl y Comisiynwyr yw gwneud penderfyniadau allweddol am bolisi corfforaethol a ffurfio'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, ac yn sicrhau bod gweithgareddau'r Comisiwn yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ystod 2024-25, roedd y Comisiwn wedi paratoi a monitro'r Cynlluniau Gweithredol a Chorfforaethol, adolygu'r Gofrestr Risg a derbyn diweddariadau ar Safonau'r Gymraeg. Roedd y polisi'n canolbwyntio yn ystod y flwyddyn ar gwblhau arolwg o Etholaethau'r Senedd a chyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Terfynol ym mis Mawrth 2025. Cwblhaodd y Comisiwn arolygon cymunedol ar gyfer prif awdurdodau Bro Morgannwg, Ceredigion, Caerffili, Abertawe a Sir Benfro, hefyd. Parhaodd y Comisiwn i gynllunio ar gyfer blaenraglen waith estynedig trwy sefydlu Tîm Iechyd Democrataidd a oedd yn gyfrifol am baratoi ar gyfer ymgymryd â gwaith yn ymwneud â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, tâl, ymchwil ac ymgysylltu.

Cyfarfu'r Comisiwn 11 gwaith yn ystod 2024-25 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Amlinellir presenoldeb Aelodau'r Comisiwn yn y cyfarfodydd hyn isod:

| Cyfarfodydd y Comisiwn 2024 – 25 | | |
|---|---|---|
| | Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y penodiad | Cyfarfodydd a fynychwyd |
| | | |
| B Smith (Cadeirydd) | 11 | 11 |
| M Imperato (Dirprwy Gadeirydd) [1] | 11 | 10 |
| F Cuthbert (Aelod) | 11 | 11 |
| D Bevan (Aelod) | 11 | 11 |
| G Wiegand (Aelod) [2] | 11 | 10 |
| B Price (Aelod) | 5 | 5 |
| K Jones (Aelod) [3] | 3 | 2 |

[1] . Nid oedd M Imperato wedi mynychu cyfarfod mis Awst 2024 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[2] . Nid oedd G Wiegand wedi mynychu cyfarfod mis Gorffennaf 2024 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[3]. Nid oedd K Jones wedi mynychu cyfarfod mis Ionawr 2025 oherwydd ymrwymiad blaenorol.

## 3.6 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn ystod 2024-25, craffodd y Pwyllgor ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r trefniadau rheoli risg ynghyd â'r Fframwaith Sicrwydd, rheolaethau mewnol a threfniadau

llywodraethu, a rhoddodd sicrwydd i'r Comisiwn fod y systemau, y prosesau a'r ymddygiadau sy'n dangos llywodraethu da a gweithredu effeithiol ar waith. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr holl adroddiadau archwilio ac wedi monitro cynnydd argymhellion archwilio a godwyd. Fel y nodwyd yn Adran 3.4 uchod, crëwyd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CDFfC ar 1 Ionawr 2025 gan Orchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn disodli Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CDFfC. Fodd bynnag, o ganlyniad i amseriad penodi Cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o'r pwyllgor yn ystod 2024-25.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiwn yn llunio Adroddiad Blynyddol, a roddodd adborth cadarnhaol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyflawnrwydd a dibynadwyedd y sicrwydd a gafwyd gan y Comisiwn ar reoli risg a'i reolaethau mewnol.

Cyhoeddir cofnodion Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiwn ar wefan y Comisiwn.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg 4 gwaith yn ystod 2024-25 i gyflawni ei gyfrifoldebau, ar 21 Awst 2024, 23 Medi 2024, 26 Tachwedd 2024 a 4 Mawrth 2025. Amlinellir presenoldeb Aelodau'r Pwyllgorau yn y cyfarfodydd hyn isod:

| Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg 2024 – 25 | | |
|---|---|---|
| | Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y penodiad | Cyfarfodydd a fynychwyd |
| | | |
| M Imperato (Cadeirydd – y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 4 | 4 |
| F Cuthbert (Aelod – y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 4 | 4 |
| D Bevan (Aelod – y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 4 | 4 |
| B Price (Aelod – y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 1 | 1 |
| K Grewal (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 4 | 4 |
| A Blackmore (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) | 4 | 4 |

## 3.7 Heriau yn Ystod y Flwyddyn

Yn ystod 2024-25, cwblhaodd y Comisiwn ei arolwg o etholaethau'r Senedd, gan gyhoeddi ei adroddiad Cynigion Terfynol ym mis Mawrth 2025. Cwblhaodd arolygon cymunedol ar gyfer prif awdurdodau Bro Morgannwg, Ceredigion, Caerffili, Abertawe a Sir Benfro hefyd.

Fel y datganwyd yn yr Adroddiad Blynyddol o dan Ddatblygiadau yn y Dyfodol ar dudalen 7, y brif her a wynebodd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn oedd cynllunio a pharatoi ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol a fyddai'n newid y Comisiwn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac yn rhoi swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer Cymru a'r ddyletswydd i arolygu etholaethau'r Senedd yn 2024-25. Er mwyn ateb yr her hon, mae CDFfC, gyda chymorth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, wedi asesu'r risgiau

sy'n gysylltiedig a'u hadolygu'n rheolaidd, a phenodi Cadeirydd annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a thri aelod ychwanegol o'r Comisiwn.

## 4. RHEOLI RISG

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i amlygu ac asesu risg yn rheolaidd ac mae ganddo raglen Rheoli Risg sydd â'r nod o amlygu, rheoli a monitro pob risg, boed yn Gorfforaethol, yn Weithredol a'r risgiau hynny sy'n benodol i gynnal gwaith arolygu, gweinyddu'r cynllun pensiwn a'r system TGCh. Nod y Comisiwn yw sicrhau, wrth gyflawni ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru, y caiff y tebygolrwydd o fethu â chyflawni ei Gynllun Gweithredol a'i Amcanion Strategol ei leihau drwy ragfynegi a rheoli risgiau hysbys. Bydd y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr yn sefydlu ac yn cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Risg gan sicrhau y caiff yr holl risgiau eu cydnabod, eu hasesu, eu hadolygu a'u gwella'n rheolaidd. Caiff y Risgiau Corfforaethol eu cyflwyno i aelodau ar ffurf Cofrestr Risgiau Corfforaethol, a ategir gan Radar Risgiau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried y Cofrestrau Risg ynghyd â'r polisi Rheoli Risg ym mhob cyfarfod i roi sicrwydd i broses Rheoli Risg y Comisiwn.

Mae trefniadau rheoli risg y Comisiwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn Llyfr Oren Trysorlys EF (Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau), sef:

- Bydd rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arwain, ac yn allweddol i'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel.
- Bydd rheoli risg yn rhan annatod o'r holl weithgareddau sefydliadol i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion.
- Bydd rheoli risg yn gydweithredol ac yn cael ei lywio gan y wybodaeth orau sydd ar gael.
- Bydd prosesau rheoli risg yn cael eu strwythuro i gynnwys:
    - a. amlygu ac asesu risgiau i bennu a blaenoriaethu sut y dylai'r risgiau gael eu rheoli;
    - b. dethol, dylunio a gweithredu opsiynau trin risgiau sy'n helpu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir a rheoli risgiau i lefel dderbyniol;
    - c. dylunio a gweithredu proses integredig, graff a gwybodus i fonitro risgiau; ac
    - ch. adrodd am risgiau'n amserol, yn gywir ac yn ddefnyddiol i wella ansawdd y penderfyniadau a wneir a chynorthwyo rheolwyr a chyrff goruchwylio i gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Bydd rheoli risg yn cael ei wella'n barhaus trwy ddysgu a phrofiad.

Mae'r Comisiwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn trwy ystyried ei barodrwydd i dderbyn risg a monitro risgiau presennol a amlygwyd, ynghyd ag ystyried ei amcanion corfforaethol a'i gynllun gweithredol ac amserlenni a therfynau amser ei raglen waith er mwyn amlygu risgiau ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Comisiwn yn adolygu ei gofrestrau risg Corfforaethol a Rhaglen Waith Arolygon ym mhob cyfarfod ac yn diweddaru'r risgiau a'r camau lliniarol fel y bo'r angen. Mae Tîm Rheoli'r Comisiwn yn adolygu cofrestrau risg Gweithredol, TGCh a Phensiynau'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau ar weithgarwch rheoli risg a pholisi rheoli risg y Comisiwn ym mhob cyfarfod.

Yn ystod 2024-25, roedd y prif risgiau a amlygwyd ac a reolwyd gan y Comisiwn fel a ganlyn:

| Risg a Amlygwyd |
|---|
| |
| Nid yw'r Comisiwn yn cynnal enw da a pherthynas waith a chyfathrebu da â phrif gynghorau ac uwch randdeiliaid. |
| Diffyg adnoddau i ymgymryd â gwaith rheoli prosiect a gweithredu'r swyddogaethau newydd y disgwylir iddynt gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn, h.y. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y Bwrdd Rheoli Etholiadol ac Arolygon Ffiniau'r Senedd. |
| Ymgysylltu aneffeithiol â rhanddeiliaid. |
| Peidio â gweithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. |

Lliniarwyd risg methu â chynnal enw da a pherthynas waith a chyfathrebu da â phrif gynghorau ac uwch randdeiliaid trwy gyfarfodydd misol rhwng y Cadeirydd a Llywodraeth Cymru, cyfarfodydd cyswllt chwarterol rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a Llywodraeth Cymru, cyfarfodydd â phrif gynghorau i drafod arolygon cyn ac yn ystod arolwg, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau mawr i bolisïau, holiaduron ôl-arolwg sy'n rhoi cyfle gwell i randdeiliaid fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â ph'un a oedd y Comisiwn wedi cyflawni ei swyddogaethau'n briodol ac yn deg, gohirio terfynau amser ar gyfer ymgynghoriadau arolygon i ganiatáu mwy o amser i brif awdurdodau yn sgil y pandemig, delio â'r holl ohebiaeth gan brif awdurdodau a rhanddeiliaid yn effeithlon gan gysylltu â Llywodraeth Cymru a chael cyngor cyfreithiol pan oedd angen ac ymrwymiad i ymgynghori ar Bolisi ac Ymarfer ar gyfer y Rhaglen Arolygon newydd wedi'i gynnwys mewn llythyr at Brif Swyddogion Gweithredol prif awdurdodau.

Lliniarwyd risg diffyg adnoddau i ymgymryd â gwaith rheoli prosiect a gweithredu'r swyddogaethau newydd y disgwylir iddynt gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn, h.y. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y Bwrdd Rheoli Etholiadol ac Arolygon Ffiniau'r Senedd, trwy gyswllt a chyfarfodydd ag Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru, yr Uned Cyrff Cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol, sicrhau bod risgiau a phryderon yn cael eu hamlygu yn y grŵp cynllunio (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol/Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru), sefydlu cofrestr risg Blaenraglen Waith Bosibl a'i hadolygu'n rheolaidd, ymgynghoriaeth a chyngor Adnoddau Dynol i gefnogi datblygiad strwythur staff newydd ac amlygu anghenion recriwtio staff a Chomisiynwyr.

Lliniarwyd risg ymgysylltu aneffeithiol â rhanddeiliaid trwy benodi Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i roi cyhoeddusrwydd helaeth i arolygon a pholisïau'r Comisiwn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau mawr i bolisïau.

Mae'n ofynnol lliniaru risg peidio â gweithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn effeithiol trwy sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddylunio a gweithredu'r platfform trwy gysylltu â Llywodraeth Cymru, defnyddio ymgynghorwyr ac arbenigwyr allanol a chomisiynu adroddiad dichonoldeb a phrofi/treialu'r platfform cyn mynd yn fyw.

## 5. ARCHWILIO MEWNOL

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'r trefniadau llywodraethu ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a'u hadroddiad i'r Comisiwn.

Gwneir y gwaith hwn gan archwilwyr penodedig sy'n strwythuro eu gwaith ar sail rhaglen archwilio flynyddol. Mae cylch gorchwyl yr archwilwyr mewnol yn mynnu y caiff gwaith ei gyflawni'n unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

Fel rhan o gylch busnes corfforaethol y Comisiwn, mae Archwilwyr Mewnol y Comisiwn, sef TIAA Ltd., yn llunio rhaglen archwilio mewnol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r broses archwilio yn defnyddio canllawiau archwilio safonol Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) ac arfer gorau arall, gyda'r nod o amlygu gwendidau posibl mewn rheolaethau. Yna, caiff pob un o'r gwendidau posibl hyn eu hasesu ar y cyd â'r archwilwyr i ystyried y risg debygol a maint yr effaith, a'r rheolaethau amgen a'r gwelliannau posibl o fewn adnoddau'r Comisiwn.

Lluniwyd y Farn Archwilio Mewnol ar Reolaeth Fewnol 2024-25 gan TIAA Ltd. gyda'r nod o ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drwy roi barn am lefel y rheolaeth fewnol ar sail y gwaith mewnol a amlinellir isod. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25 yn datgan:

'*Mae TIAA yn fodlon, o ran y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith*'.

**Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2024-25**

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth frys | Blaenoriaeth bwysig | Blaenoriaeth arferol | |
| Parhad Busnes | Hydref 2024 | - | - | 1 | Sylweddol |
| Rheolaethau Cyffredinol TGCh | Hydref 2024 | - | - | - | Sylweddol |
| Pwerau Newydd | Hydref 2024 | - | - | - | Sylweddol |

**Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn 2024-25**

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth frys | Blaenoriaeth bwysig | Blaenoriaeth arferol | |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Chwefror 2025 | - | - | - | Sylweddol |
| Arolygon Cymunedol | Chwefror 2025 | - | - | - | Sylweddol |

Rhoddodd yr archwiliad canol blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol i Barhad Busnes, Rheolaethau Cyffredinol TGCh a Phwerau Newydd, a gwnaed un argymhelliad archwilio.

Rhoddodd yr archwiliad diwedd blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol i Reolaethau Ariannol Allweddol ac Arolygon Cymunedol, ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod trefniadau CDFfC yn lleihau ei amlygiad i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol rheolwyr CDFfC.

Rhoddodd yr adroddiad archwilio Dilynol ar gyfer 2024-25 ymateb cadarnhaol i weithredu argymhellion y flwyddyn flaenorol, gyda 4 o'r 5 argymhelliad a oedd yn weddill wedi cael eu gweithredu a'r argymhelliad a oedd ar ôl yn symud ymlaen tuag at gael ei weithredu.

## 6. ARCHWILIO ALLANOL

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol y Comisiwn sy'n archwilio cyfrifon ariannol blynyddol y Comisiwn yn unol ag arfer sefydledig.

Adolygwyd y casgliadau Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Medi 2024. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2023-24 a gwnaed 2 argymhelliad archwilio a dderbyniwyd gan y Comisiwn, sef:

- dylai gweithdrefnau sicrhau ansawdd gael eu cryfhau trwy gofnodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth baratoi'r cyfrifon drafft i'w harchwilio.
- dylai'r Comisiwn ymchwilio i logisteg a chost a budd cynnal ei drefniadau wrth gefn ei hun yn ogystal â'r rhai yng nghwmwl SAGE fel haen ychwanegol o reoli risg y posibilrwydd o golli data.

## 7. EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD

### 7.1 Ymsefydlu, Datblygu, Hyfforddi ac Arfarnu Perfformiad

Mae Comisiynwyr newydd ac aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael sesiwn ymsefydlu sy'n ymdrin â sut mae gwaith arolygu'r Comisiwn yn cael ei wneud, y berthynas rhwng CDFfC a'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru a sut mae'r ysgrifenyddiaeth ar y cyd ar gyfer y ddau gorff yn gweithredu a threfniadau ariannol y Comisiwn. Fel rhan o raglen ymsefydlu Comisiynwyr ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, darperir hyfforddiant mewn perthynas â'r broses o gynnal arolwg etholiadol. Hefyd, darperir pecyn ymsefydlu ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nad ydynt yn aelodau'r Comisiwn.

Anogir Comisiynwyr i feithrin cysylltiadau ag aelodau cyrff eraill sydd â buddiannau sy'n gyffredin â rhai'r Comisiwn. Mae trefniant sefydledig o gyfarfodydd blynyddol rhwng Comisiynau Ffiniau amrywiol y Deyrnas Unedig, a cheir cyfarfodydd cyfnodol rhwng Aelodau'r Comisiwn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a chyrff rhanddeiliaid eraill hefyd. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer meysydd arbenigedd penodol y nodwyd y byddant o fudd i'r Comisiwn.

Caiff perfformiad Cadeirydd y Comisiwn ei arfarnu'n flynyddol gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru. Caiff perfformiad

Aelodau'r Comisiwn ei arfarnu'n flynyddol gan Gadeirydd y Comisiwn. Ar gyfer 2024-25, daeth y Cadeirydd i'r casgliad fod perfformiad holl Aelodau'r Comisiwn yn gwbl foddhaol.

### 7.2 Gwybodaeth am y Bwrdd

- Mabwysiadwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn;
- Mabwysiadwyd Cynllun Gwaith ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn;
- Mabwysiadwyd fformat safonol ar gyfer adroddiadau. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac yn mynnu bod materion fel risgiau a goblygiadau cyfreithiol yn cael eu hystyried;
- Anogir awduron adroddiadau i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth hygyrch a dibynadwy, fel Llywodraeth Cymru, prif gynghorau, Comisiynau Ffiniau eraill, adrannau'r llywodraeth ac ati;
- Mabwysiadwyd fformat safonol ar gyfer agendâu a chofnodion cyfarfodydd. Mae eitemau sefydlog ar agendâu yn cynnwys datganiadau buddiannau, materion sy'n codi, rheoli risg, adroddiad ar y gyllideb a chalendr digwyddiadau. Caiff cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan y Comisiwn;
- Mae aelodau'r Comisiwn wedi parhau i ddefnyddio gliniaduron ar gyfer storio a gweld papurau cyfarfodydd a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'w dyletswyddau, ac mae hyn wedi parhau i leihau costau deunydd ysgrifennu sy'n gysylltiedig ag argraffu a chopïo papurau cyfarfodydd.

### 7.3 Gwerthuso Perfformiad y Bwrdd

Cynhaliwyd y gwerthusiad o Fwrdd y Comisiwn ar gyfer 2024-25 ym mis Awst 2024. At ei gilydd, roedd canfyddiadau'r gwerthusiad yn gadarnhaol yn ystod 2024-25, and concluded that the vast majority of the indicators of effectiveness and compliance gan ddod i'r casgliad y bodlonwyd mwyafrif helaeth y dangosyddion effeithiolrwydd a chydymffurfio ag arfer da. Cryfhaodd y Comisiwn ei werthusiad o Berfformiad y Bwrdd yn ystod 2024-25 trwy:

- Fabwysiadu Cynllun Olyniaeth ar gyfer y Bwrdd.
- Cynnal dadansoddiad bwlch sgiliau ar gyfer aelodau'r Bwrdd.
- Datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer y Bwrdd.
- Datblygu cynllun sefydlu newydd ar gyfer aelodau'r Bwrdd.
- Cyflwyno rhaglen sefydlu strwythur ar gyfer aelodau newydd.
- Adolygu Holiadur Effeithiolrwydd y Bwrdd.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad allanol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau effeithiolrwydd byrddau cyrff hyd braich yn ystod 2025-26.

Cynhaliodd y Pwyllogr Archwilio a Sicrhau Risg ei adolygiad hunanasesu blynyddol o'i effeithiolrwydd trwy holiadur diwygiedig a lenwyd gan yr aelodau yn ystod mis Ionawr 2025. At ei gilydd, roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol yn ystod 2024-25, gan ddod i'r casgliad y bodlonwyd mwyafrif helaeth y dangosyddion effeithiolrwydd a chydymffurfio ag arfer da. Mae meysydd a amlygwyd i'w gwella yn cael eu nodi mewn cynlluniau gweithredu ac yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn ganlynol. O ran y gwerthusiad o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu o'r flwyddyn flaenorol i fynd i'r afael â nhw. Ni chododd y gwerthusiad o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg unrhyw bwyntiau gweithredu.

## 8. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae trefniadau'r Comisiwn yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ym mhob ffordd berthnasol.

## 9. ANSAWDD ADRODDIADAU I'R BWRDD

Ar ôl safoni fformat adroddiadau a system o wirio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau, erbyn hyn mae'r Comisiwn o'r farn bod ansawdd y data yn dderbyniol a bydd yn ymdrechu i wneud gwelliannau pellach i adroddiadau safonedig ar arolygon i'r Bwrdd.

## 10. CYFARFODYDD Â'R ADRAN NODDI

Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru, a cheir cysylltiad cyson rhwng aelodau'r Ysgrifenyddiaeth ac aelodau'r Is-adran Noddi ar faterion gweithredol. Yn ogystal, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd cyswllt â chynrychiolwyr Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd ar waith arolygu, materion llywodraethu corfforaethol ac unrhyw faterion eraill sy'n codi yn ymwneud â gweithrediad y Comisiwn.

## 11. RHEOLI PERFFORMIAD

Mae system rheoli perfformiad ar waith i sicrhau bod aelodau staff yn deall beth maent yn ei wneud a pham, a sut mae eu gwaith yn cysylltu â'r hyn y mae'r Comisiwn yn ceisio ei gyflawni. Gan ddefnyddio'r feddalwedd Clear Review, mae gofyn i bob rheolwr osod amcanion i'w staff sy'n cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn a'u diweddaru fel y bo'r angen. Mae hyn yn cynnwys cynllun datblygu a hyfforddi llawn sy'n gysylltiedig â gyrfa a swydd i gynorthwyo datblygiad staff.

Caiff perfformiad aelodau'r Comisiwn ei asesu gan Gadeirydd y Comisiwn yn flynyddol, a chaiff perfformiad y Comisiwn o ran cyflawni ei ddyletswyddau ei fonitro yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

## 12. DIOGELWCH DATA TGCH

Mae'r Comisiwn yn cael adroddiadau Diogelwch TGCh gan ei swyddogion cymorth TGCh a ddarperir gan Gymwysterau Cymru. Ystyrir yr adroddiadau hyn ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd y Comisiwn ei Archwiliad Seiberddiogelwch blynyddol. Yn ogystal, cwblhaodd y Comisiwn Lefel 1 IASME a llwyddodd i'w chyflawni.

## 13. CHWYTHU'R CHWIBAN A THWYLL

Mae'r Comisiwn yn gweithredu Polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll sydd ar gael i staff drwy fewnrwyd y Comisiwn ac i Aelodau'r Comisiwn drwy'r pecynnau ymsefydlu sy'n cael eu dosbarthu iddynt ar ôl iddynt gael eu penodi. Caiff trefniadau Chwythu'r Chwiban y Comisiwn, ynghyd ag adroddiad ar unrhyw achosion o chwythu'r chwiban a thwyll, eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Nid oedd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban neu dwyll drwgdybiedig yn ystod 2024-25 (2023-24 – dim digwyddiadau chwythu'r chwiban).

LLOFNOD ______________________________ DYDDIAD : 17 Hydref 2025
Beverley Smith
Cadeirydd

LLOFNOD ______________________________ DYDDIAD : 17 Hydref 2025
Shereen Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Adroddiad Tâl a Staff**

**Contractau Gwasanaeth**

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn manylu ar yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae gan y swyddogion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn swyddi penagored. Byddai terfynu'n gynnar, heblaw ar gyfer camymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn, fel y pennir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

**Polisi Tâl**

Caiff y pwerau i wneud taliadau i Aelodau'r Comisiwn eu hamlinellu yn Adran 2 Darpariaeth 4 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Offeryn Swyddogol (OS) 1999 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Rhif 672. Caiff cynnydd i dâl Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ei awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am dalu tâl aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) ar gyfraddau dyddiol a bennir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac a gymeradwyir gan Drysorlys EF. Telir am y taliadau hyn drwy'r cyllid a ddarperir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a ddisgrifir ar dudalen 6 ac a ddatgelir yn y tabl costau staff ar dudalen 28.

Caiff codiadau cyflog blynyddol eu cymhwyso yn unol â'r rhai a gytunir ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw daliadau bonws perfformiad yn berthnasol.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn destun archwiliad ac eithrio'r ffigurau yn ymwneud â chyfansoddiad staff ac absenoldeb oherwydd salwch.

**Tâl (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn**

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion am gyflog a buddion pensiwn rheolwyr uchaf ac aelodau bwrdd y Comisiwn.

**Tâl Aelodau'r Comisiwn (yn destun archwiliad)**

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Enw | Ffioedd £'000 | Ffioedd £'000 |
| | | |
| Beverley Smith (Cadeirydd CDFfC) | 5 - 10 | 5 - 10 |
| Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd CDFfC) | 5 - 10 | 0 - 5 |
| Frank Cuthbert (Aelod CDFfC) | 5 - 10 | 0 - 5 |
| Dianne Bevan (Aelod CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Ginger Weigand (Aelod CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Bethan Price (Aelod CDFfC) | 0 - 5 | - |
| Karen Jones (Aelod CDFfC) | 0 - 5 | - |
| Julie James (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio – CFfDLC) | - | 0 - 5 |
| Andrew Blackmore (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio – CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio – CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Huw V Thomas (Aelod – CFfG) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Sam Hartley (Aelod – CFfG) | 0 - 5 | 0 - 5 |

Roedd tâl aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Nid yw cyfraniadau pensiwn yn daladwy.

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yr Uchel Lys: Meistres Ustus Jefford DBE. Mae swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn swydd ddi-dâl, a thelir treuliau yn unig.

**Cyflog a Hawliau Pensiwn Uwch Reolwyr (yn destun archwiliad)**

| Cyfanswm tâl unigol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog | Cyflog (£'000) [1] | | Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) [2 3] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| Mrs S Williams (Prif Weithredwr) | 80-85 | 80-85 | 33,000 | 32,000 | 115-120 | 110-115 |
| Mr D T Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni) | 70-75 | 65-70 | 28,000 | 26,000 | 95-100 | 90-95 |
| Mr D Burley (Pennaeth Busnes) | 65-70 | 60-65 | 65,000 | 43,000 | 130-135 | 100-105 |
| Mr M Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd) [4] | 10-15 | - | 4,000 | - | 10-15 | - |

[1] Ni wnaed unrhyw daliadau bonws na Buddion mewn Nwyddau.

[2] Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol i'r pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol i unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

[3] Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hyn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi'l heffeithio gan Rhwymedi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar ei cynnwys yn y cynllun etifeddol dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion ac oedd yn aelodau, neu yn gymwys i fod yn aelod, o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2022 ac yr oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu safbwynt cyfreithiol ac effeithir ar aelodau wedi cael ei rholio yn ôl i'r cynlluniau etifeddiaeth perthnasol gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl yn weithredol ar ymddeoliad i benderfynu yn lle hynny dderbyn buddion a gyfrifir o dan delerau cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

[4] Ers 14 Ionawr 2025. FTE / FYE cyflog £55 – 60.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn gan MyCSP, sef y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Ni all y Comisiwn ddylanwadu ar y cyfrifiad na'r swm a adroddir. Nid yw'n swm a dalwyd i swyddog gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall sawl ffactor ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau i gyflog swyddog, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

**Nifer yr Uwch Reolwyr**

Cyflogodd y Comisiwn 4 uwch reolwr yn ystod 2024-25 (2023-24: 3 uwch reolwr), sef Prif Weithredwr, Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Pennaeth Busnes a Phennaeth Iechyd Democrataidd. Ystyrir bod Prif Weithredwr y Comisiwn yn gyfwerth â Gradd 6 Llywodraeth Cymru, ac ystyrir bod Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Pennaeth Busnes a Phennaeth Iechyd Democrataidd y Comisiwn yn gyfwerth â Gradd 7 Llywodraeth Cymru.

**Cyflog**

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth a goramser. Derbyniodd un aelod o staff lwfans Recriwtio a Chadw 5% a derbyniodd un aelod o staff lwfans Cyfrifoldeb Ychwanegol 7.5% yn

ystod 2024-25. Ni wnaed unrhyw daliadau eraill mewn perthynas â thâl perfformiad neu daliadau bonws. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan y Comisiwn, ac fe'u cofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

**Datgeliad Cyflog Teg (yn destun archwiliad)**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Tâl wedi'i fandio y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £80-£85,000 (2023/24 = £80-£85,000). Roedd hyn 1.84 gwaith (2023-24: 1.98 gwaith) yn fwy na thâl canolrifol gweithlu'r Comisiwn, sef £44,852 (2023-24: £41,675).

| **Cyfanswm Tâl a Buddion** | | |
|---|---|---|
| | **2024/25** | **2023/24** |
| Tâl y 25ain canradd | 33,748 | £29,285 |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 2.44 | 2.82 |
| Tâl y 50fed canradd | 44,852 | £41,675 |
| Cymhareb cyflog y 50fed canradd | 1.84 | 1.98 |
| Tâl y 75ain canradd | 50,009 | £44,020 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 1.65 | 1.87 |

| **Elfen Gyflog Cyfanswm Tâl a Buddion** | | |
|---|---|---|
| | **2024/25** | **2023/24** |
| Tâl y 25ain canradd | 33,748 | £29,285 |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 2.44 | 2.82 |
| Tâl y 50fed canradd | 43,758 | £41,675 |
| Cymhareb cyflog y 50fed canradd | 1.89 | 1.98 |
| Tâl y 75ain canradd | 49,210 | £41,675 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 1.68 | 1.98 |

Yn 2024/25, ni chafodd unrhyw gyflogai dâl uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (2023/24 = dim cyflogai).

Roedd tâl yn amrywio o £29,657 i £82,500 (2023/24: £26,901 i £82,500). Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, taliadau dros dro, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf oedd 3.1% (2023/24: 13.8%). Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflogeion yn gyffredinol oedd 14.3% (2023/24: 6.9%).

**Sicrwydd Treth ar gyfer Cyflogeion nad ydynt ar y Gyflogres**

Caiff yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn ac aelodau'r bwrdd eu talu drwy system gyflogres y Comisiwn ac maent yn ddarostyngedig i'r cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol. Mae'r holl staff sydd ar secondiad i'r Comisiwn o adrannau eraill y llywodraeth yn aros ar system gyflogres eu rhiant-adrannau. Yn ystod 2024-25, gwnaeth y Comisiwn daliadau oddi ar y gyflogres i ymgynghorydd a gyflogwyd i gynorthwyo'r Comisiwn i ddatblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

**Gweithwyr cyflog uchel oddi ar y gyflogres a oedd wedi'u penodi ar 31 Mawrth 2025, yn ennill £245 neu fwy y dydd**

| | |
|---|---|
| Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2025 | 1 |
| | |
| Sydd wedi bodoli am: | |
| | |
| Llai na blwyddyn | 1 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | - |
| Rhwng 2 a 3 blynedd | - |
| Rhwng 3 a 4 blynedd | - |
| 4 blynedd neu fwy | - |

**Yr holl weithwyr cyflog uchel oddi ar y gyflogres a benodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, yn ennill £245 neu fwy y dydd**

| | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | 1 |
| | |
| A oedd: | |
| | |
| Heb fod yn destun deddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn destun deddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd eu bod o fewn cwmpas IR35 | - |
| Yn destun deddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 1 |
| Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |

**Buddion Pensiwn (yn destun archwiliad)**

| Enw | Pensiwn cronedig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/03/25 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn | CETV ar 31/3/25 | CETV ar 31/3/24 [1] | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniadau'r cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| | | | | | | |
| Mrs S Williams Prif Weithredwr | 15 - 20 | 0 – 2.5 | 197 | 162 | 17 | - |
| Mr D T Jenkins Pennaeth Polisi a Rhaglenni | 10 - 15 | 0 – 2.5 | 177 | 146 | 13 | - |
| Mr D Burley Pennaeth Busnes | 25 – 30 a chyfandaliad o 75 – 80 | 2.5 – 5 a chyfandaliad o 5 – 7.5 | 703 | 623 | 63 | - |
| Mr M Pascoe [2] Pennaeth Iechyd Democrataidd | 10 – 15 | 0 – 2.5 | 137 | 135 | 2 | - |

[1] . Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hyn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi'I heffeithio gan Rhwymedi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar ei cynnwys yn y cynllun etifeddol dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion ac oedd yn aelodau, neu yn gymwys i fod yn aelod, o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2022 ac yr oedd yn aelodau o gynllun pensiwn

gwasanaethau cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu safbwynt cyfreithiol ac effeithir ar aelodau wedi cael ei rholio yn ôl i'r cynlluniau etifeddiaeth perthnasol gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl yn weithredol ar ymddeoliad i benderfynu yn lle hynny dderbyn buddion a gyfrifir o dan delerau cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

2 Ers 14 Ionawr 2025

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n adrannau gwahanol – mae **classic, premium, a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gwasanaethu, â'r cynllun newydd.

Mae'r PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Mae balans costau'r buddion sy'n daladwy yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan Senedd San Steffan bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, caiff cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn **partneriaeth**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a osodir gan Drysorlys EF. Caiff aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion PCSPS yr holl aelodau a newidiodd i **alpha** o'r PCSPS eu 'bancio', a bydd y rhai hynny â buddion cynharach yn un o rannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun, os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. 60 yw'r oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alpha**, fel y bo'n briodol. Pan fydd gan aelod fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos cyfuniad o werth ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhannau cyfansawdd y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau pontio a oedd yn trin aelodau presennol cynlluniau'n wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod y trefniadau pontio yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiadau 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i'r holl aelodau. Mae'r rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 March 2022, a daeth yr holl aelodau gweithredol yn aelodau o **alpha** ar 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31

Mawrth 2022, trwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a chyfanswm y ffigur tâl unigol a adroddwyd ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ei gynnwys yn y PCSPS am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gymwys i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail i'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol, sef bod aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r PCSPS am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn gymwys oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu derbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun **alpha** yn lle hynny am y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn galwedigaethol cyfraniad diffiniedig sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn eu cyfateb hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch).
Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraidd o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Rhwymedigaethau pensiwn**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ac alpha yn gynlluniau diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu cyllido, ond nid yw'r Comisiwn yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2020. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: (Pensiynau Sifil: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23)

Telir y cyfryw symiau i'r Tâl-feistr Cyffredinol ag a allai fod yn briodol i gynrychioli rhwymedigaethau sy'n crynhoi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 24 a nodyn 1.13 i'r cyfrifon.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £171,473 (2023-24: £148,095) yn daladwy i'r PCSPS ar gyfradd o 28.97% (2023-24: 26.6% i 30.3%) o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun cyfan. Diwygiwyd y bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer 2024-25 ac ni fyddant yn newid tan 2028-29. Mae'r bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan eir i'r costau mewn gwirionedd, ac maen nhw'n adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae cyfraniadau gan y cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maen nhw'n amrywio o 8.0% i 14.75% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Nid yw'r un o'r swyddogion a gyflogir gan y Comisiwn yn aelod o'r cynllun pensiwn partneriaeth.

Nid oedd neb wedi ymddeol ar sail iechyd gwael yn ystod y flwyddyn.

**Iawndal ar gyfer colli swydd**

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â cholli neu derfynu swydd yn ystod 2024-25 (ac ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2023-24).

**Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig** ***(yn destun archwiliad)***

| | **2024-25 Staff a gyflogir yn barhaol £** | **2024-25 Aelodau'r Comisiwn £** | **2024-25 Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | **598,256** | **40,959** | **639,215** |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | **65,838** | **751** | **66,589** |
| **Costau pensiwn** | **171,473** | **-** | **171,473** |
| **Cyfanswm Costau Net** | **835,567** | **41,710** | **877,277** |

**Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd**
**Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:**

| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
|---|---|---|---|
| **Cyflogir yn Uniongyrchol** | **12.5** | **10.8** | **23.3** |
| **Cyfanswm Staff** | **12.5** | **10.8** | **23.3** |

Cymaryddion:

| | 2023-24 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Aelodau'r Comisiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cyflogau | 561,248 | 25,793 | 587,041 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 55,984 | 221 | 56,205 |
| Costau pensiwn | 148,095 | - | 148,095 |
| | 765,327 | 26,014 | 791,341 |

Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd
Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | No. | No. | No. |
|---|---|---|---|
| Cyflogir yn Uniongyrchol | 12.3 | 7.9 | 20.2 |
| Cyfanswm Staff | 12.3 | 7.9 | 20.2 |

Mae'r costau uchod ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan y cyllid penodedig o £229,757 a dderbyniwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cynnal y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod blynyddoedd pan na chynhelir arolwg (2023-24; £167,300 costau gwirioneddol). Mae costau Aelodau'r Comisiwn yn cynnwys £2,528 (2023-24; £2,275) o ran tâl aelodau a wariwyd ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Roedd y costau llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r ffaith bod y Comisiwn wedi cwblhau ei Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn ystod 2023-24, ac felly wedi derbyn swm penodedig o gyllid yn unig i gynnal Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru tan yr arolwg Seneddol nesaf.

**Costau Ymgynghoriaeth**

Yn ystod 2024-25 talodd y Comisiwn £2,544 (2023-23; £0) i gwmni ymgynghoriaeth a gyflofwyd i gynorthwyo'r Comisiwn i ddatblygu Platfform Gwybodaeth Etholiadol Cymru.

**Polisi Cyflogeion**

Mae'r Comisiwn yn cynnal craidd o staff a gyflogir yn uniongyrchol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Pennaeth Busnes, Pennaeth Iechyd Democrataidd, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, dau Swyddog Arolygu a dau Swyddog Cymorth Busnes. Mae gan y staff a gyflogir yn uniongyrchol fandiau cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth sy'n gyfatebol i staff Llywodraeth Cymru o'r un graddau. Yn ystod 2024-25, secondiwyd un aelod o staff i Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024 ac ad-dalwyd ei gostau cyflog i'r Comisiwn.

Mae gan y Comisiwn ystod eang o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, a'u nod yw sicrhau y caiff staff eu cadw a'u cymell. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff pob polisi ei wirio o ran cydraddoldeb cyn ei roi ar waith. Achredwyd y Comisiwn â'r safon Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) yn gyntaf yn 2009. Roedd yr achrediad hwn yn destun adolygiad dilynol yn ystod 2024-25 a ddaeth i'r casgliad y dylai'r Comisiwn gadw ei achrediad BMP.

**Cyfansoddiad Staff**

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a nifer y staff o ran cyfrif pennau ar gyfer 2024-25 ar 31 Mawrth 2025.

| **Band Cyflog** | **Gwrywaidd** | | | | **Benywaidd** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CALI** | **%** | **Cyfrif Pennau** | **%** | **CALI** | **%** | **Cyfrif Pennau** | **%** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelod o'r Comisiwn[1 2] | 6 | 50 | 6 | 50 | 6 | 50 | 6 | 50 |
| Prif Weithredwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 100 | 1 | 100 |
| Gradd 7 | 2.8 | 100 | 3 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwch-Swyddog Gweithredol | 1 | 100 | 1 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwr Arolygu (Swyddog Gweithredol Uwch) | 3 | 75 | 3 | 75 | 1 | 25 | 1 | 25 |
| Swyddog Arolygu (Swyddog Gweithredol) | 1 | 27 | 1 | 25 | 2.7 | 73 | 3 | 75 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **13.8** | **56** | **14** | **56** | **10.7** | **44** | **11** | **44** |
| Cyfanswm y flwyddyn flaenorol | 14 | 65 | 14 | 64 | 7.7 | 35 | 8 | 36 |
| Amrywiant | -0.2 | -9 | 0 | -8 | +3 | +9 | +3 | +8 |

[1] Yn cynnwys 3 Aelod o'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.
[2] Defnyddir ffigurau cyfrif pennau ar gyfer niferoedd Aelodau CALI y Comisiwn.

**Cyfle Cyfartal**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth a'i nod yw sicrhau nad yw unrhyw gyflogai neu ddarpar gyflogai yn cael ei drin yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu statws rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Comisiwn yn sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl.

**Absenoldeb oherwydd Salwch**

Yn ystod 2024-25, roedd chwe aelod o staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 46 diwrnod (2023-24 – roedd chwe aelod o staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 33 diwrnod).

**Iechyd, Diogelwch a Lles**

Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi Iechyd a Diogelwch Staff a pholisi Codi a Chario, ac mae asesiad risg tân ac adolygiad iechyd a diogelwch annibynnol yn cael eu cynnal yn flynyddol. Mae'r Comisiwn hefyd wedi cael ei achredu gan Wobr Iechyd y Gweithle Bach trwy ennill y wobr Efydd.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
17 Hydref 2025

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o dan Baragraff 19, Rhan 2 o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a mabwysiadodd y DU safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd sylweddol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i wariant gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd sylweddol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriedir gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.
Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg y bydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.
Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.
Mabwysiadir sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y

wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os ydw i'n nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Rhagair, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nid yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw neu nad yw ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Atebolrwydd yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- nid yw'r wybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â thâl a thrafodion eraill yn cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF yn cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy;
- sicrhau rheoleiddrwydd trafodion ariannol;

- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Comisiwn Ffiniau Democratiaeth a Ffiniau Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu yn y cyfan, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.
Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymholi i reolwyr, Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru sy'n ymwneud â:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyllo. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll wrth bostio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru; a
- Chael dealltwriaeth o berthynas partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau a phrofi'r datganiadau ariannol i ddogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Comisiwn; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu'r tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a berfformir, yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

**Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hynyn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.**

**Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal gwefan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a sicrhau ei chywirdeb, nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.**

# DATGANIADAU ARIANNOL

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025**

| | Nodiadau | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|---|
| Incwm | 4 | **(296,159)** | (422,183) |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | **(296,159)** | (422,183) |
| **COSTAU** | | | |
| Costau staff | 2 | **877,277** | 791,341 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | **617,818** | 388,886 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | | **1,495,095** | 1,180,227 |
| **Gwariant Gweithredu Net** | | **1,198,936** | 758,044 |
| Costau Cyllid | | **1,339** | 1,283 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn** | | **1,200,275** | 759,327 |

Mae'r holl weithgareddau wedi'u dosbarthu'n rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 42 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL**

**ar 31 Mawrth 2025**

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2025** | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 5 | **106,909** | 34,567 |
| Asedau Hawl Defnyddio | 6 | **139,421** | 25,615 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **246,330** | 60,182 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | **71,076** | 37,948 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | **5,398** | 48,287 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **76,474** | 86,235 |
| **Cyfanswm asedau** | | **322,804** | 146,417 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | **(55,086)** | (75,748) |
| Rhwymedigaeth Les Hawl Defnyddio | | **(26,620)** | (25,889) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(81,706)** | (101,637) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **241,098** | 44,780 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Rhwymedigaeth Les Hawl Defnyddio | 15 | **(97,705)** | - |
| Darpariaethau | | **(18,888)** | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(116,593)** | - |
| **ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU** | | **124,505** | 44,780 |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | **124,505** | 44,780 |
| | | **124,505** | 44,780 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 42 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 17 Hydref 2025.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
17 Hydref 2025

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025**

| | Nodiadau | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | | **(1,198,936)** | (758,044) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Lleihad / (Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | | **(33,128)** | (11,939) |
| Dibrisiant | 5 | **36,440** | 20,678 |
| Dibrisiant Asedau Hawl Defnyddio | 6 | **61,182** | 67,548 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn symiau masnach sy'n daladwy | | **(20,662)** | 41,702 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn darpariaethau | | **-** | (6,000) |
| (Elw) / Colled wrth waredu asedau sefydlog | | **1,081** | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,154,021)** | (646,055) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 5 | **(109,864)** | (8,688) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(109,864)** | (8,688) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | | **1,280,000** | 750,000 |
| Taliad les Hawl Defnyddio | | **(59,004)** | (68,838) |
| | | **1,220,996** | 681,162 |
| **Cyllido net** | | | |
| Cynnydd /(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | **(42,889)** | 26,419 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 9 | **48,287** | 21,868 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | **5,398** | 48,287 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 42 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

## DATGANIAD O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025**

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol £ |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | 54,107 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | 54,107 |
| | |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2023-24** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 750,000 |
| Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (759,327) |
| | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | 44,780 |
| | |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2024-25** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 1,280,000 |
| Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (1,200,275) |
| | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | 124,505 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 43 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol 2024-25 y Llywodraeth (FReM yn seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae’r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y’u haddaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae’r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru isod. Maent wedi eu cymhwyso’n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i’r cyfrifon.

### 1.1 Cyfarwyddyd Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon yn unol â’r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013.

### 1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

### 1.3 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Dosberthir cyllid y Comisiwn a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru a’r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel cyllid ar gyfer gwariant ar raglenni gan y ddwy Adran. Ystyrir felly mai incwm a gwariant rhaglenni yw’r holl ffigurau incwm a gwariant a ddangosir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.4 Prisio Asedau Anghyfredol

Caiff asedau anghyfredol eu cyfalafu ar gost caffael a gosod, lle mae’r gost honno’n fwy na £500. Caiff Eiddo, Peiriannau ac Offer eu datgan ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol wedi ei dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg i bob math o ased, oherwydd bod gan bob un ohonynt un ai oes ddefnyddiol fer, gwerth isel, neu’r ddau ohonynt. Yn ei hanfod, caiff yr holl eiddo, peiriannau ac offer eu grwpio’n un o ddau ddosbarth, asedau TG neu Ddarnau Gosod, Dodrefn ac Offer. Pan fydd nifer o eitemau sylweddol unfath, â gwerthoedd unigol islaw’r trothwy cyfalafu, yn cael eu prynu fel grŵp ac mae eu gwerth cyfanredol yn uwch na’r trothwy cyfalafu, mae’r Comisiwn yn ystyried eu bod yn asedau cyfalaf.

Caiff asedau anniriaethol fel costau meddalwedd gyfrifiadurol eu cyfalafu ar gost caffael pan fo’r gost honno’n fwy nag £1,000. Cyfrifir am ffioedd adnewyddu blynyddol ar gyfer meddalwedd gwmwl fel gwariant refeniw, felly codir tâl amdanynt yn llawn pan fo’r nwyddau a’r gwasanaethau wedi cael eu derbyn.

### 1.5 Asedau Hawl Defnyddio

Caiff lesoedd eu cyfalafu pan fydd y Comisiwn yn cael budd economaidd o

ddefnyddio'r ased hwnnw. Caiff asedau eu cyfalafu ar werth cyfanswm y taliadau ar hyd cyfnod y les. Nid yw lesoedd â gwerth canlyniadol o lai na £5,000 yn cael eu cyfalafu ac fe'u trinnir fel lesoedd gweithredu. Caiff eiddo ei ddibrisio i'w werth gweddilliol ar hyd cyfnod y les ar sail rhwng 5 ac 11 mlynedd.

1.6 **Dibrisiant**

Caiff dibrisiant asedau anghyfredol ei gyfrifo i ddileu eu cost neu brisiad dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff yr holl asedau anghyfredol eu dibrisio dros gyfnod o bump neu ddeng mlynedd, yn dibynnu ar oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased. Caiff dibrisiant blwyddyn lawn ei godi yn ystod y flwyddyn gaffael a dim yn ystod y flwyddyn waredu.

1.7 **Darpariaethau**

Cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd gan y Comisiwn rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth.

1.8 **Buddion cyflogeion**

Rhoddir cyfrif am gost darparu buddion cyflogeion yn ystod y cyfnod y caiff y buddion eu hennill gan gyflogeion. Darperir ar gyfer gwyliau blynyddol dros y cyfnod y mae'r gwyliau hynny'n cronni. Cyflwynwyd y polisi cyfrifyddu hwn yn 2009-10, yn unol â gofyniad IAS19, Buddion Cyflogeion.

1.9 **Cyllid**

Mae'r Comisiwn yn cael Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Yn unol â'r FReM, caiff y Cymorth Grant hwn ei ystyried yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar ôl ei dderbyn.

1.10 **Incwm**

Mae symiau derbyniadwy heblaw am Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn incwm yn hytrach na chyllid. Daw'r brif ffynhonnell incwm o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i dalu am gost cynnal Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yng Nghaerdydd. Yn ystod 2024-25, cafodd y Comisiwn incwm hefyd gan sawl prif awdurdod yng Nghymru am gynnal arolygon cymunedol ar eu rhan, yn ogystal â swm bach o incwm am ymgymryd â gwaith ar ran Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.11 **Stocrestrau**

Nid yw'r Comisiwn yn dal unrhyw stoc o werth sylweddol.

1.12 **Treth ar Werth (TAW)**

Mae'r holl wariant yn cynnwys TAW gan nad yw'r Comisiwn wedi ei gofrestru ar gyfer TAW ac felly nid yw'n gallu adennill TAW adenilladwy.

1.13 **Pensiynau**

Telir y cyfryw symiau i'r Tâl-feistr Cyffredinol ag a allai fod yn briodol i gynrychioli rhwymedigaethau sy'n crynhoi ym Mhensiwn y Gwasanaeth Sifil o ran pensiynau a

buddion eraill tebyg ar gyfer unigolion a gyflogir gan y Comisiwn ac mewn perthynas â'r treuliau gweinyddol sy'n briodoladwy i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni. Caiff cyflogeion blaenorol a phresennol eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Tâl.

1.14 **Rheoli Risg Ariannol**

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu ar grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf ar gyfer ei ofynion arian parod. Hefyd, nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol a chaiff yr holl asedau a rhwymedigaethau arwyddocaol eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfraddau llog neu risg arian cyfred.

1.15 **Effaith Safonau nad ydynt ar waith hyd yn hyn**

Mae Aelodau'r Comisiwn wedi ystyried effaith Safonau a Dehongliadau a gyhoeddwyd, ond nad ydynt ar waith hyd yn hyn ac nad yw'r Comisiwn wedi eu mabwysiadu'n gynnar. Nid yw'r Aelodau'n disgwyl y bydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn.

1.16 **Offerynnau Ariannol**

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw offerynnau ariannol sylweddol. Gall offerynnau tymor byr gynnwys arian parod, dyledwyr masnach a chredydwyr masnach. Lle y bo'n berthnasol, mae'r gwerth cyfredol yr un fath â'r gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn.

1.16.1 **Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill**

Nid yw symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yn dwyn unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadenilladwy amcangyfrifedig.

1.16.2 **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon tymor byr a buddsoddiadau tra hylifol tymor byr eraill y mae'n hawdd eu trosi'n swm arian hysbys ac sy'n destun risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

1.16.3 **Symiau masnach a symiau taladwy eraill**

Nid yw symiau masnach a symiau taladwy eraill yn dwyn llog a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol.

1.16.4 **Benthyciadau**

Nid oes unrhyw fenthyciadau na gorddrafftiau sy'n dwyn llog.

1.16.5 **Amhariad**

Caiff gwerth asedau'r Comisiwn i'w ddwyn ymlaen ei adolygu ar ddyddiad pob mantolen er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd o amhariad. Os yw'r cyfryw arwydd yn bodoli, caiff swm adenilladwy'r asedau ei amcangyfrif. Swm adenilladwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth wrth ei ddefnyddio.

Caiff Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau Ariannol sy'n deillio o gontractau ar gyfer

prynu neu werthu eitemau anariannol eu cydnabod wrth iddynt ddigwydd h.y. wrth dderbyn neu ddanfon y nwyddau neu'r gwasanaethau.

1.17 **Rhwymedigaethau Les Hawl Defnyddio**

Caiff lesoedd eu cyfalafu pan fydd y Comisiwn yn cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased hwnnw. Caiff y rhwymedigaeth gysylltiedig ei chydnabod yn y datganiadau ariannol fel cyfanswm y taliadau ar hyd cyfnod y les wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog sylfaenol y Comisiwn.

1.18 **Lesoedd Gweithredu**

Caiff costau les weithredu eu codi ar y datganiad costau gweithredu yn ystod y flwyddyn yr eir i'r costau hynny.

## 2. COSTAU STAFF

Daeth costau staff ar gyfer y flwyddyn i £877,277 (2023-24; £791,341) ac roeddent yn cynnwys £639,215 (2023-24; £587,041) mewn cyflogau, £66,589 (2023-24; £56,205) mewn costau nawdd cymdeithasol a £171,473 (2023-24; £148,095) mewn costau pensiwn. Rhoddir dadansoddiad manylach o'r costau hyn yn yr Adroddiad Tâl ar dudalen 31.

## 3. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| | **2025** | 2024 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Costau Cynnal | | |
| Teithio a Chynhaliaeth Staff | **3,722** | 5,159 |
| Teithio a Chynhaliaeth Aelodau'r Comisiwn | **5,197** | 3,849 |
| Ffioedd Cyrsiau a Hyfforddiant Staff | **19,291** | 7,577 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru – ffi archwilio flynyddol | **19,937** | 13,703 |
| Ffioedd Archwilio Mewnol | **9,266** | 9,948 |
| Cyfryngau a Hysbysebu | **106,186** | 23,357 |
| Cyfieithu | **44,964** | 28,415 |
| Argraffu, postio, offer swyddfa ac Adnoddau Dynol | **7,964** | 13,886 |
| Ffôn a chontractau | **330** | 854 |
| Costau llety | **59,195** | 42,908 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **40,702** | 53,905 |
| Costau cyfrifiadurol anghyfalafol | **200,046** | 94,629 |
| Arall | **3,396** | 2,470 |
| Eitem Anariannol: | | |
| Dibrisiant Eiddo, Peiriannau ac Offer | **36,440** | 20,678 |
| Dibrisiant Asedau Hawl Defnyddio | **61,182** | 67,548 |
| Cyfanswm | **617,818** | 388,886 |

Mae'r costau gwariant gweithredu arall uchod yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan y cyllid penodedig o £229,757 a dderbyniwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cynnal y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod blynyddoedd pan na chynhelir arolwg (2023-24; £98,763 costau gwirioneddol).

## 4. INCWM

| | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| MHCLG – Comisiwn Ffiniau i Gymru | **229,757** | 245,143 |
| Costau a ad-dalwyd ar gyfer staff ar secondiad | **14,561** | 59,046 |
| Costau Arolygon Cymunedol | **39,523** | 108,088 |
| Costau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | **12,100** | 9,721 |
| Ad-daliadau eraill | **83** | - |
| Ad-daliad Cerdyn Caffael Cymru | **135** | 185 |
| | **296,159** | 422,183 |

Incwm cyllido yw Cymorth Grant ac fe'i credydir yn uniongyrchol i'r cronfeydd wrth gefn. Yn ystod 2024-25, derbyniodd y Comisiwn £229,757 o gyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i dalu costau cynnal Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yng Nghaerdydd (2023-24, £245,143). Roedd y costau llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r ffaith na chynhaliwyd unrhyw waith arolygu ar ôl cwblhau Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, cafodd y Comisiwn ad-daliad o £135 yn ymwneud â defnyddio Cardiau Caffael Cymru (2023-24, £185), £39,523 gan bum prif awdurdod am gynnal arolygon cymunedol o'u hardaloedd (2023-24, £108,088) ac £83 yn ymwneud â mân eitemau eraill o gostau a ad-dalwyd.

## 5. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

| | Technoleg Gwybodae th t<br>£ | Dodrefn a Ffitiadau<br>£ | Iesddali ad | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 179,601 | 83,847 | - | 263,448 |
| Ychwanegiadau | 12,587 | 978 | 96,299 | 109,864 |
| Gwarediadau | (50,864) | (70,950) | - | (121,814) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 141,324 | 13,875 | 96,299 | 251,498 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 146,742 | 82,139 | - | 228,881 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 16,672 | 508 | 19,260 | 36,440 |
| Dilëwyd wrth waredu | (50,864) | (69,868) | - | (120,732) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 112,550 | 12,779 | 9,630 | 144,589 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | 28,774 | 1,096 | 77,039 | 106,909 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | 32,859 | 1,708 | - | 34,567 |

| | Technoleg Gwybodaet h<br>£ | Dodrefn a Ffitiadau<br>£ | Iesddali ad | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 170,913 | 83,847 | - | 254,760 |
| Ychwanegiadau | 8,688 | - | - | 8,688 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 179,601 | 83,847 | - | 263,448 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 127,470 | 80,733 | - | 208,203 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 19,272 | 1,406 | - | 20,678 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dilëwyd wrth waredu | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 146,742 | 82,139 | | 228,881 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | 32,859 | 1,708 | - | 34,567 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | 43,444 | 3,114 | - | 46,557 |

Mae'r Comisiwn yn berchen ar yr holl Asedau.

## 6. ASEDAU HAWL DEFNYDDIO

| | Les Tŷ Hastings £ | Les Parc Cathays £ | Les Offer Swyddfa £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 155,617 | - | - | 155,617 |
| Ychwanegiadau | 21,669 | - | - | 21,669 |
| Lesoedd Newydd | - | 145,516 | 7,803 | 153,319 |
| Gwarediadau | (177,286) | - | - | (177,286) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | - | 145,516 | 7,803 | 153,319 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 130,002 | - | - | 130,002 |
| Tâl ar gyfer y flwyddyn | 47,284 | 13,500 | 398 | 61,182 |
| Dilëwyd wrth waredu | (177,286) | - | - | (177,286) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | - | 13,500 | 398 | 13,898 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | - | 132,016 | 7,405 | 139,421 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | 25,615 | - | - | 25,615 |

Gadawodd y Comisiwn ei swyddfa yn Nhŷ Hastings ar 6 Tachwedd 2024 yn dilyn diwedd y les ar gyfer y llety hwnnw, a symudodd i lety swyddfa newydd yn Adeilad Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 7 Tachwedd 2024 o dan les pum mlynedd.

## 7. OFFERYNNAU ARIANNOL

Gan fod gofynion arian parod y Comisiwn yn cael eu bodloni trwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig y Comisiwn, ac felly nid yw'r Comisiwn yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad. Cymhwysir IFRS 9 Offerynnau Ariannol, fel y'i dehonglwyd a'i haddaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Prif effaith mabwysiadu IFRS 9 fydd newid y sail gyfrifo ar gyfer darpariaethau drwgddyledion, gan newid o sail colled a ysgwyddir i sail colled credyd disgwyliedig (ECL) hyd oes. Ystyriodd ac asesodd y Comisiwn ofynion newydd IFRS 9 a nododd na fyddai unrhyw effaith ar y cyfrifon hyn.

## 8. SYMIAU MASNACH SY'N DDERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | **2025** | 2024 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |

**Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:**

| | | |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **71,076** | 37,948 |
| **Cyfanswm** | **71,076** | 37,948 |

## 9. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | **2025** | 2024 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Balans ar 1 Ebrill | **48,287** | 21,868 |
| Newid net i falansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **(42,889)** | 26,419 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **5,398** | 48,287 |
| Balans ar 31 Mawrth | **5,398** | 48,287 |

## 10. SYMIAU MASNACH SY'N DALADWY A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | **2025** | 2024 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach sy'n daladwy | **4,288** | 1,261 |
| Croniadau | **25,674** | 52,438 |
| Tâl gwyliau cronedig | **25,124** | 22,049 |
| | **55,086** | 75,748 |

## 11. TALIADAU ARBENNIG A CHOLLEDION

Cofnododd y Comisiwn golledion a ddaeth i gyfanswm o £1,284 yn ystod 2024-25 (2023-24: dim colledion). Roedd hyn yn gysylltiedig â cholled o £202 o ganlyniad i wall a wnaed wrth wneud cais am uwchraddio un o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn a cholled o £1,082 yn gysylltiedig ag eitemau amrywiol o ddodrefn swyddfa darfodedig, nad oeddent wedi dibrisio'n llwyr ac yr oedd ganddynt werth llyfr net o hyd ar y gofrestr asedau sefydlog, a waredwyd wrth symud llety.

## 12. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn drafodion perthnasol â Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gwariant ar gyfer gwaith adnewyddu llety a rhent llety a ddaeth i £132,403, ac incwm o £26,661 a dderbyniwyd mewn perthynas chostau cyflog a adenillwyd ar gyfer staff ar secondiad i Lywodraeth Cymru a gwaith a wnaed i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Comisiwn gyfanswm rhwymedigaeth brydles IFRS16 gyda Llywodraeth Cymru o £116,870 mewn perthynas â phrydles swyddfeydd ym Mharc Cathays (2023-24, £68,952 o drafodion perthnasol). Daeth y Cymorth Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i £1,280,000 (2023-24, £750,000). Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw weddill yn ddyledus gyda Llywodraeth Cymru (2023-24: dim gweddill yn ddyledus).

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru (CFfG). Corff Cyhoeddus Anadrannol yw CFfG a noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ystyrir bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, nid yw'r Comisiwn wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2023-24, dim trafodion perthnasol). Yn ystod 2024-25, cafodd y Comisiwn £229,757 o gyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2023-24, £245,143). Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw weddill yn ddyledus gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2023-24: dim gweddill yn ddyledus).

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion ag endidau y mae gan aelodau a staff rheoli allweddol fuddiant ynddynt.

## 13. DADANSODDIAD O WARIANT NET YN ÔL SEGMENT

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y caiff canlyniadau gweithredu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hadrodd i'r Comisiwn ynddynt. Nid oes gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru segmentau a nodir ar wahân ac mae'n adrodd am wybodaeth ariannol i'w Fwrdd fel y datgelir yn Nodiadau 2, 3 a 4.

## 14. RHWYMEDIGAETHAU AC ASEDAU AMODOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau nac asedau amodol ar ddiwedd 2024-25 (2023-24: Dim rhwymedigaethau amodol).

## 15. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| | Dadfeiliadau ac adfer £ | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2024 | - | **-** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 18,888 | **18,888** |
| Darpariaethau nad oeddent yn ofynnol a adferwyd | - | **-** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | 18,888 | **18,888** |

Cymhwysir disgownt lle bo'n berthnasol. Gan nad ystyriwyd bod y disgownt ar y ffigur amcangyfrifedig ar gyfer dadfeiliadau yn berthnasol, ni chymhwyswyd unrhyw ddisgownt.

Gwneir darpariaethau ar gyfer ailaddurno yn ystod cyfnod y brydles ac ar gyfer adfeiliadau, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol, ar ddiwedd cyfnod y brydles. Gall y rhwymedigaethau hyn amrywio o ganlyniad i wybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a all arwain at newidiadau i'r symiau sydd wedi'u cynnwys, ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol gan IAS 37.

**Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y rhwymedigaeth yn y dyfodol**

| | Dadfeiliadau ac adfer £ | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | | |
| Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 18,888 | **18,888** |
| Hwyrach na 5 mlynedd | - | **-** |
| Cyfanswm | 18,888 | **18,888** |

## 16. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 17 Hydref 2025 gan y Swyddog Cyfrifyddu. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl y fantolen i'w datgelu ar ôl y cyfnod adrodd, sy'n effeithio ar 2024-25. O 2025-26 ymlaen, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.